LANEq324

# Ymarfer a gwella perfformiad ceffylau trwy eu harwain neu eu rhoi ar ffrwyn hir

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag ymarfer a gwella perfformiad ceffylau trwy arwain neu eu rhoi ar ffrwyn hir.  Dylech allu dewis a gosod harneisiau, cadw rheolaeth dros y ceffyl, pennu a chytuno ar anghenion ymarfer y ceffyl a chynnal ymarfer. Dylech allu cysylltu a thrafod perfformiad y ceffyl gyda'r person priodol.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. dewis a gosod harneisiau addas yn unol â'r gweithdrefnau cyfredol
3. cadw rheolaeth dros y ceffyl bob amser sy'n briodol i'r amodau
4. pennu'r anghenion ymarfer a hyfforddi er mwyn gwella perfformiad y ceffyl a chytuno arnynt gyda'r person priodol
5. ymarfer a gwella perfformiad y ceffyl trwy arwain neu ei roi ar ffrwyn hir
6. gwerthuso a hysbysu'r person priodol ynghylch yr effeithiau y mae'r gweithgareddau ymarfer yn eu cael ar berfformiad y ceffyl
7. nodi pan fydd ceffyl wedi cael digon o ymarfer ar gyfer ei anghenion
8. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y mathau a'r defnydd o gymhorthion hyfforddi wrth arwain a rhoi ar ffrwyn hir
3. defnyddio arwain a rhoi ar ffrwyn hir mewn rhaglenni ymarfer a hyfforddiant i wella perfformiad y ceffyl
4. sut y gellir gweithio ceffylau ar y ddaear ar gyfer disgyblaethau eraill
5. â phwy y mae'n rhaid i chi gysylltu, yn cynnwys y perchennog, y marchog, yr hyfforddwr a'r goruchwylydd
6. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
7. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Ymarfer y mathau canlynol o geffylau:

- ffit
- ddim yn ffit
- perfformiad
- hamdden
- gweithio

Ymarfer ceffylau gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- cerdded
- trotian
- hanner carlamu wrth arwain

Ymarfer ceffylau yn briodol i'r amodau canlynol:

- arwyneb
- y tywydd
- presenoldeb ceffylau eraill

Ymarfer a gwella ceffylau ar gyfer disgyblaeth benodol. Dylai'r ceffylau fod ar lefelau hyfforddiant amrywiol.

LANEq324

Ymarfer a gwella perfformiad ceffylau trwy eu harwain neu eu rhoi ar ffrwyn hir

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq324 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; ymarfer; hyfforddiant |